TACHWEDD A RHAGFYR 2025

YSGOL PENNAL

# LLEISIAU PENNAL

https://www.ysgolcorrisapennal.cymru/



## SESIYNAU HUWCALELI





Mae Huw Owen (Huwcalele) wedi bod yn dod i roi sesiynau ukulele i ni yn Ysgol Pennal. Rydym wedi dechrau gyda dysgu nodau syml fel C, F a D. Hefyd, rydym wedi creu cân gyda'n gilydd a chwarae gêm nodau C a F. Mae sesiynau Huw wedi bod yn hwyl a sbri. Rydym yn edrych 'mlaen i berfformio ein can Nadolig. Diolch Huw.
Ysgrifennwyd gan Amy



## DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN




Mae Diwrnod Plant Mewn Angen yn bwysig iawn achos mae yna sawl plentyn angen help pob dydd. Ar Ddydd Gwener 14eg o Dachwedd rydym wedi dathlu'r diwrnod mewn llawer o wahanol ffyrdd. Rydym ni wedi neud cwis 'kahoot', gemau a heriau diwrnod Pydsi. Roedd pawb wedi dod i'r ysgol gyda gwalltiau gwirion ac roedd yna gystadleuaeth am y gwallt gwirionaf. Amy enillodd a'r wobr oedd siocled gwyn Cymreig. Cawson ni gêm rhoi'r faner ar Pydsi. I orffen y dydd gwnaethon ni her i ddawnsio am 25 munud, roedd o'n llawer iawn o hwyl a phawb wedi blino'n lan! Codwyd £57.76
Ysgrifennwyd gan Angharad

# GWASANAETH COFIO





Ar Ddydd y Cofio aethon ni i'r cofgolofn ym Mhennal erbyn 11 o'r gloch. Cafodd pawb rhan i ddweud enwau'r dynion o Bennal oedd wedi ymladd dros ein gwlad. Dywedodd Mr Ramsbotham am hanes yr awyren oedd wedi disgyn ar y mynydd tu ôl i Ysgol Pennal. Roeddwn wedi rhoi pabi ar y cof golofn i gofio.
Ysgrifennwyd gan Iestyn



# GWEITHDAI GETH TOMOS

Yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr daeth Geth Tomos i helpu cyfansoddi cân efo ni yn ystod y gweithdai. Rydym wedi chwarae gêm o'r enw band bwced. Rydym wedi cyfansoddi cân mewn 10 munud. Dwi wedi hoffi chwarae efo'r drymiau a gêm clapio. Diolch yn fawr Mr T.
Ysgrifennwyd gan Riley




## GWEITHDY CODI'R TO

Cafodd disyblion Blwyddyn 5 gyfle i gymryd rhan yng ngweithdy drymiau.offer taro yn Ysgol Uwchradd Tywyn gydag ysgolion eraill y dalgylch. Roedd bwrlwm mawr i gael arbrofi efo drymiau a chyd-chwarae - dipyn o gynwrf a swn. Prynhawn arbennig.

## CWIS GLANYRAFON

Diolch yn fawr i Staff Glanyrafon am drefnu dwy noson gwis dechrau mis Tachwedd a mis Rhagfyr dan ofal Tomi a Karen. Rydym yn ddiolchgar iawn i chi am godi arian i Ysgol Pennal yn ystod y nosweithiau yma.






## COGURDD

Ar y 26ain o Dachwedd, es i i Ysgol Bro Idris i wneud yr ail rownd o Cogurdd. Wnes i frecwast llawn yn cynnwys bacwn, wyau, bîns, madarch a thomatos. Dwi wedi mwynhau gwneud y brecwast. Wnes i ymarfer dwywaith adref cyn y gystadleuaeth wrth wneud swper i Mam a Dad. Ar ôl gorffen roeddwn i yn rhwystredig oherwydd doeddwn heb ennill achos dwi yn caru coginio.
Ysgrifennwyd gan Jesse



## BAG2SCHOOL

Yn ystod casgliad Bag 2 School mis Tachwedd, casglwyd 220kg o ddillad mewn sachau.
Mae'r ysgol wedi derbyn siec o £66 i Gronfa'r Ysgol. Diolch am eich cefnogaeth.

## MEINCIAU NEWYDD

Diolch yn fawr i Gyngor Cymuned Pennal am y meinciau newydd. Rydym yn ddiolchgar iawn am y gwahanol feinciau sydd wedi eu lleoli o amgylch yr ysgol.

**TACHWEDD A RHAGFYR 2025**

# YSGOL PENNAL

## PANTO






Aeth Ysgol Pennal i weld pantomeim Clustiau March yn Aberdyfi ar y 28ain o Dachwedd gyda plant Ysgol Dyffryn Dulas. Roedd o yn ddoniol iawn. Roedd llawer iawn o ysgolion eraill wedi mynd hefyd. Gwelson ni Mrs Janet yna hefyd. Fy hoff ran oedd pan mae'r ysbryd yn gwneud 67 achos aeth pawb yn BONCYRS. Dwi wedi hoffi'r pantomeim yn fawr iawn. Ar ôl y pantomeim mae actorion wedi dod i'r ysgol i weld ni ac roeddwn wedi gofyn cwestiynau a chael sgwrs. Diolch yn fawr am ddiwrnod gwych!
Ysgrifennwyd gan Arrow





## DIWRNOD SIWMPER NADOLIG

Ar Ddydd Iau, 11eg o Ragfyr bu i'r ysgol ddod ynghyd i ddathlu Diwrnod Siwmper Nadolig – un o'r diwrnodau mwyaf lliwgar a llawen yn y flwyddyn! Roedd disgyblion ac athrawon yn gwisgo eu siwmperi Nadoligaidd gorau, gyda phatrymau llawn hwyl yn amrywio o geirw a choed Nadolig i olau fflachlyd a phompoms.
Roedd pawb yn mwynhau'r cyfle i ddangos eu siwmperi unigryw,
Diolch i bawb am gymryd rhan a gwneud y diwrnod yn llawn hwyl a chwerthin. Mae'n wych gweld ysbryd Nadolig yn fyw yn ein hysgol!





TACHWEDD A RHAGFYR 2025

YSGOL PENNAL

# FFAIR NADOLIG





Ar y 27aino Dachwedd roedd plant Ysgol Pennal wedi cymryd rhan yn Ffair Nadolig yng Nghanolfan Pennal. Roedd plant Ysgol Pennal wedi canu caneuon ‘Braf yw bwyta’, ‘Twit twit’, ‘Mae’n amser gŵyl’ ac ‘Brysiwch lawr y grisiau’.
Ar ein stondin roedd pob math o bethau. Roedd y dosbarth wedi gwneud ‘rocky roads’ neis iawn. Hefyd roedd pawb wedi cael jar i addurno efo papur tusw a glud i greu jar neis i roi fferins ynddo, ac wedyn ei ddefnyddio fel jar i gannwyll. Hoff beth fi yn y ffair oedd bwyta'r ‘rocky road’ efo fy ffrindiau ac edrych rownd y stondinau eraill oedd yna. Roedd ‘Gesiwch faint o fferins sydd yn y pot’ ar un o’r stondinau a dwi wedi dyfalu bod 241. Roedd yna stondin gemwaith lle brynais fwclis siarc i fy hun ac roedd mam wedi prynu addurniadau Nadolig.
Ysgrifennwyd gan Jack







# DIWRNOD TROSGLWYDDO BRO HYDDGEN

Cynhaliwyd Ddiwrnod Trosglwyddo yn Ysgol Bro Hyddgen ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6. Cafodd disgyblion Flwyddyn 6 ddiwrnod da yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Addysg Gorfforol a Gwyddoniaeth yn ystod y dydd.





# PARTI NADOLIG

Yn ystod yr wythnos olaf, cawsom llawer o hwyl yn Parti Nadolig y Ffederasiwn yn Ysgol Dyffryn Dulas. Daeth Sion Corn i'n gweld, gan ein bod wedi bod yn blant da yn ystod y flwyddyn.
Cawsom ddisgo a gemau hwyl yn ystod y dydd









# GWASANAETH CRISTINGL

Ar ddiwrnod olaf y flwyddyn, cynhaliwyd ein Gwasanaeth Cristingl blynyddol yn Eglwys Pennal. Diolch yn fawr i Mr Rambsbottam am arwain y gwasanaeth. Cafodd pob un disgybl yr ysgol Cristingl i fynd adref, ar ol canu ambell i gan Nadoligaidd.



# CARTREF DYFI



Bu disgyblion Ysgol Pennal ac Ysgol Dyffryn Dulas i ganu yng Nghartref Dyfi prynhawn Dydd Mercher olaf y mis. Roedd y preswylwyr wrth eu boddau yn gwrando ar y caneuon Nadolig.



# GWASANAETH NADOLIG



Ar Nos Fawrth ola’r tymor, daeth disgyblion Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal at ei gilydd i gynnal Gwasanaeth Nadolig arbennig yn Eglwys Pennal. Diwrnod cyn y gwasanaeth, cawsom ddiwrnod prysur yn ymarfer ar y cyd, gan greu awyrgylch Nadoligaidd bendigedig. Roedd y plant wrth eu bodd yn perfformio – gyda chaneuon, darlleniadau a chyfraniadau creadigol yn dod â gwir ysbryd y Nadolig i bawb. Roedd y gwasanaeth yn llwyddiant ysgubol, a phawb yn mwynhau’r profiad o fod yn rhan o ddathliad mor arbennig.
Diolch i bawb a gyfrannodd at wneud y noson yn un cofiadwy!




# CINIO NADOLIG



Diolch yn fawr i Anti Kim am baratoi cinio nadolig blasus iawn i ni eleni. Rydym yn ddiolchgar iawn i Anti Kim am baratoi cinio blasus bob dydd, ond roedd y cinio nadolig yn arbennig iawn.



